# Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam: Beth ydym yn ei wneud, a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud

## Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

2023 - 2024

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Crynodeb o berfformiad 4

Beth mae pobl yn ddweud wrthym am ein gwasanaethau 6

Gwella lles (Y Chwe Safon) 11

Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion 36

Rhagor o wybodaeth 40

Atodiad 1 41




WCBC/ER824/14102024

# Cyflwyniad

Mae 2023/24 yn nodi blwyddyn bwysig arall o ddatblygu ar gyfer Gofal Cymdeithasol yn Wrecsam. Mae gan yr adran Gofal Cymdeithasol lawer i'w ddathlu ac mae canlyniad cadarnhaol ein harolwg yn Nhachwedd 2023 yn cadarnhau pa mor bell rydym wedi dod, a'r gwelliannau rydym wedi'u gwneud.

Mae'r adroddiad hwn yn eich darparu gyda throsolwg o'n cyflawniadau yn erbyn y 6 safon rydym yn mesur ein cyflawniadau yn eu herbyn. Ar y cyd mae meysydd lle rydym yn gweld graddfa sylweddol o falchder yn ein cyflawniad i gefnogi pobl.

Yn y Gwasanaethau Plant rydym wedi llwyddo i ehangu cyfranogiad ac ymgynghoriad gyda phobl ifanc yn y Cyngor Plant mewn Gofal, gan eu cynnwys ymhob cam. Mae'r gwaith Taith Bywyd wedi'i ddylunio i gefnogi pob plentyn i ddeall eu stori, ac mae hyn wedi'i gryfhau ymhellach gyda gweithdai a hyfforddiant i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn dda. Mae gwaith cyn-geni hefyd wedi parhau gyda lansiad cyfarfodydd Cyswllt Cyn-Geni er mwyn cefnogi rhieni sy'n disgwyl babi pan fyddant angen ein cymorth.

Yn y Gwasanaethau Oedolion mae gwelliannau cadarnhaol wedi digwydd. Rydym yn falch iawn bod ein rhestr aros Therapi Galwedigaethol wedi'i leihau 70% ac wedi cyfrannu at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl. Yn yr un modd mae ein tîm ail-alluogi wedi ehangu eu gwaith yn ein hysbyty dwys lleol, Ysbyty Maelor Wrecsam, gan arwain at asesiad cyflymach o bobl sy'n gleifion gan gefnogi eu rhyddhad o'r ysbyty yn ôl adref. Mae ein cynnig i ofalwyr di-dâl hefyd wedi gwella gyda mwy o gymorth ar gael tu allan i oriau, a mwy o asesiadau'n cael eu cwblhau.

Mae ein nodau ar gyfer 2024/25 yn uchelgeisiol. Yn y Gwasanaethau Plant, rydym yn bwriadu parhau i wella ein cynnig maethu a pharhau i ehangu ein cynnig preswyl mewnol ar gyfer plant. Bydd ein rhaglen Kickstart sy'n cynnig llety a chefnogaeth ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, hefyd yn tyfu mewn modd mesuradwy. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ein dull amhariad ar gyfer plant sydd ar goll a phlant sy'n destun cam-fanteisio. Mae gweithredu'r dull hwn yn hanfodol os ydym am gadw ein plant ifanc yn ddiogel.

Yn y Gwasanaethau Oedolion rydym wedi ymrwymo i lansio ein Tîm Ymyrraeth Gynnar, gan gymryd dull sy'n seiliedig ar gryfderau ar gyfer yr holl ddinasyddion sy'n cael eu cyfeirio atom ni. Mae ein Gwasanaethau Darparwyr hefyd yn cael ei ailstrwythuro er mwyn cefnogi ystod eang o wasanaethau ac i sicrhau bod ein capasiti i reoli hyn yn gwella. Byddwn hefyd yn adolygu ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl er mwyn sicrhau bod ein cynnig yn parhau i fod yr un iawn.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam wedi ymrwymo i ddatblygu a darparu'r cymorth sydd ei angen i gryfhau ein cymunedau a helpu i ddarparu'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl.

Alwyn Jones,

Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol

# Crynodeb o berfformiad

## Cefndir

Mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru gyhoeddi adroddiad am ei Wasanaethau Cymdeithasol ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol. Dyma ein hadroddiad ni.

Y nod yw gwerthuso pa mor dda y darparwyd ein gwasanaethau, a thynnu sylw at unrhyw welliannau sy'n ofynnol.

Hefyd mae'n gyfle i esbonio sut rydym yn bwriadu helpu pobl dros y flwyddyn i ddod - pobl y mae arnynt angen cymorth a chefnogaeth, a gofalwyr di-dâl a allai fod angen ein cymorth ni.

Wrth i chi ddarllen trwy'r tudalennau hyn fe wnewch chi sylwi ein bod ni'n sôn am chwe 'safon ansawdd.' Mae'r rhain yn rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (byddwn yn cyfeirio ati fel 'y Ddeddf' o hyn ymlaen).

Mae fformat yr adroddiad hwn yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf, a'r angen i fesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol o ran y chwe safon.

Mae'n bwydo i'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, a'i nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru - cynorthwyo i greu gwlad yr ydym i gyd yn dymuno byw ynddi. Nawr ac yn y dyfodol.

Yn olaf, fe sylwch ein bod yn cyfeirio at 'ganlyniadau' yn aml. Mae hyn oherwydd bod gymaint o'n gwaith yn canolbwyntio ar helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau y maent yn dymuno eu cyrraedd.

## Cwynion a Chanmoliaethau

Mae cwynion yn derbyn sylw yn unol â gweithdrefn gwynion gwasanaethau cymdeithasol statudol a reolir gan dîm cwynion canolog yn y cyngor. Mae gan y tîm berthynas weithio rhagorol gydag uwch reolwyr ar draws yr adran ac yn cysylltu'n rheolaidd i fynd i'r afael â chwynion.

Mae adroddiad llawn ar gwynion a chanmoliaeth yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu perthnasol yn flynyddol ac yna'n cael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod y cwynion a dderbynnir yn cael eu craffu'n briodol gan aelodau ac yn cynnig tryloywder i'r cyhoedd (wrth sicrhau bod manylion achwynydd yn parhau'n gwbl gyfrinachol).

Yn ystod 2023/24 roedd y nifer o gwynion a dderbyniwyd wedi cynyddu, gan dderbyn 75 o'i gymharu â 56 yn ystod 2022/23.

Cafodd chwech chwyn eu hymchwilio yn annibynnol yng Ngham 2. Roedd hyn yn gyson â'r 6 yn y flwyddyn flaenorol.

Cafwyd 37 o ganmoliaethau yn ystod 2023/24, gan amlygu'r gwerthfawrogiad gan ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd am y cymorth a ddarparwyd. Mae dau o'r rhain fel a ganlyn:

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

“Hoffwn fynegi fy niolchiadau i ac X am eich cefnogaeth gyson a chadarnhaol trwy gydol y broses hon. Mae’n beth mawr, a theimlwn eich bod wedi’n cefnogi ni yn fawr. Mae gweld X wedi ymgartrefu mor fodlon, yn ogystal â’i gael mor agos atom ni, yn freuddwyd. Rydych wedi chwarae rôl hanfodol yn hyn. Diolch yn fawr iawn ar ran y ddau ohonom.”

## Gofal Cymdeithasol i Blant

"Hoffwn gymryd y cyfle hen i fynegi ein diolch i chi am y cymorth a’r gefnogaeth a gawsom trwy gydol y cyfnod anodd hwn. Mae X wedi ymgartrefu’n dda gyda ni ac i’w weld yn llawer hapusach. Eto, diolch yn fawr iawn i bawb oedd ynghlwm."

# Beth mae pobl yn ddweud wrthym am ein gwasanaethau

Mae gwrando ar y bobl yr ydym yn eu cefnogi yn hanfodol. Mae'n ymwneud â sut rydym yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym yn datblygu ein dull ar gyfer 'cyd-gynhyrchu' - ble mae pobl a sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i ffyrdd i ddatblygu ein gwasanaethau yn ystod pob cam.

### Esbonio'r jargon - 'cyd-gynhyrchu'

> Mae 'cyd-gynhyrchu' yn cyfeirio at waith a wnaed gyda chyfraniad llawn a chyfartal defnyddwyr y gwasanaethau. Mewn geiriau eraill, mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael dweud eu dweud am benderfyniadau a newidiadau sy'n effeithio arnyn nhw.

## Dementia - Oin Siwrnai

Yn Wrecsam, rydym wedi bod ar siwrnai i ddeall yn llawn y ffyrdd y mae dementia yn effeithio ar ein cymunedau a'n trigolion. Rydym wedi ymgysylltu gyda nifer o sefydliadau a grwpiau i ehangu ein gwybodaeth a dealltwriaeth o sut all ddementia effeithio ar deuluoedd a sut allwn eu cefnogi i fyw'n dda gyda dementia.

Mae rhai o'r gwaith rydym wedi bod yn rhan ohonynt wedi'u rhestru isod;

- Ar ôl siarad a gwrando ar ofalwyr di-dâl a phobl sy'n byw gyda dementia bellach mae dolen ar ein gwefan a mynediad at wybodaeth mewn un lle.
- Rydym wedi cael ein cyhoeddi yn y rowndiau terfynol ar gyfer gwobrau Acolâdau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer ein gwaith dementia a buddsoddiad mewn RITA (Gweithgaredd Therapi Rhyngweithiol Hel Atgofion). Bellach mae RITA ar gael mewn 38 o leoliadau ar draws Wrecsam, gan helpu pobl sy'n byw gyda dementia i gael mynediad at weithgareddau hel atgofion therapiwtig.
- Fe gynhaliom y Bws Teithiol Profiad Rhithiol yn Hwb Lles Wrecsam yng Ngorffennaf 2023. Fe wnaethom ailadrodd llwyddiant y blynyddoedd blaenorol gyda 32 o bobl yn mynychu'r sesiynau, gan gynnwys gofalwyr, gweithwyr cefnogi a rheolwyr gofal. Cyflawnwyd adolygiad o'r bws rhithiol.

## Adborth

Yr adborth a gasglwyd o rai o'r digwyddiadau a restrir uchod yw:

### Sesiwn Bws Dementia

- "Defnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth"
- "Roedd yn rhoi mewnwelediad gwych o ran sut mae rhywun gyda dementia yn teimlo"
- "Cynigiwyd mewnwelediad i ddementia ac mae wedi profi pa mor llethol y gall dementia fod a sut all amgylcheddau wneud hyn yn waeth"
- "Rwyf bellach yn deall dementia ac yn gwybod ffyrdd newydd o sut i gefnogi gyda dementia"
- "Roedd yn brofiad da i ddysgu ychydig o sut mae pobl rydym yn gofalu amdanynt yn ddyddiol, yn teimlo. Gobeithio gallwn weithio tuag at wneud bywyd yn well ar gyfer y pobl hyn."

### Canolfan Ddydd The Palace

"Fe wnaeth defnyddwyr a staff yma yng Nghanolfan Ddydd The Palace fwynhau bod yn rhan o'r prawf RITA ac edrychwn ymlaen at ymuno eto yn y sesiwn nesaf. Os nad oeddent yn canu, roeddent yn tapio eu traed neu'n clapio dwylo, neu dapio eu cadeiriau ac yn mwynhau'r sesiwn yn fawr."

### Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam

Mae SWS (Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam) yn grŵp amrywiol o oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn gweithio ar y cyd â'r tîm Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, sy'n ein cefnogi ni yn y rôl wirfoddoli hon. Mae'r SWS yn edrych ar wahanol ffyrdd i wella'r cymorth a gynigir gan CBSW i bobl gydag anableddau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf fe ddechreuom greu straeon digidol am nifer o wahanol destunau ac wedi creu ein sianel YouTube, Wrexham SWS.

Hefyd fe welsom ddangosiad cyntaf ein ffilm ddiweddaraf, Sexual Graffiti sydd hefyd ar y sianel YouTube. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar adnewyddu Fy Staff Fy Llais, grŵp sy'n rhoi cyfle i bobl sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol, i gyfweld y bobl hynny sy'n eu helpu nhw. Mae hyn yn ffordd dda iawn o sicrhau cydweddiad rhwng yr unigolyn a'u gofalwr a bydd yn helpu i recriwtio gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr yn y misoedd nesaf.

Fe wnaethom drefnu diwrnod hwyl i'r teulu yn Awst er mwyn codi arian ar gyfer y Cynllun Mannau Diogel yr ydym yn parhau i'w reoli yn wythnosol. Mae'r diwrnod hwyl i'r teulu wedi dod yn ddigwyddiad blynyddol sy'n cael ei drefnu ar y cyd â'r tîm PCP. Hefyd gwelsom yr ail ddigwyddiad Tân Gwyllt Sŵn Isel, sydd hefyd bellach hyn ddigwyddiad blynyddol llwyddiannus.

Mae gennym grŵp gemau newydd sydd wedi cael ei sefydlu er mwyn annog pobl i gwrdd, gwneud ffrindiau a mwynhau gemau gyda'i gilydd. Mae ein sesiynau galw heibio technoleg yn yr Hwb Lles wedi cael defnydd da. Rydym hefyd wedi dechrau Sesiwn Goginio unwaith y mis, lle gall ffrindiau ddod ynghyd, cynllunio eu pryd, prynu'r cynhwysion a choginio pryd gyda'i gilydd cyn ei fwynhau yng nghegin yr Hwb Lles. Fel rhan o'r canolbwynt cyfeillgarwch, rydym yn cynllunio gweithgareddau ac yn cwrdd yn rheolaidd i gael hwyl a gwneud ffrindiau.

## Gweithio Gyda'r Trydydd Sector

Rydym yn mwynhau perthynas weithio agos gyda Chyngor Gwirfoddol y Sir, sef Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam.

Mae Canolfan Gwersyllt bellach wedi dod yn ased cymunedol a ddarperir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam mewn partneriaeth â CBSW i gynnig man diogel i drigolion Wrecsam i gymdeithasu, cysylltu ag eraill a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau a grwpiau i gefnogi pobl i gyflawni eu nodau hunanofal, iechyd a lles eu hunain. Trwy wrando ar anghenion y gymuned, mae canolfan aml-genhedlaeth wedi'i chreu trwy gydlynu a chyd-gynhyrchu gwasanaethau sylfaenol, statudol a thrydydd sector, gan gynnig ystod eang o weithgareddau a grwpiau i bob oed. Mae gweithgareddau wedi cynnwys cynhwysiant digidol, sesiynau coginio, ioga cadair i'r rhai dros 75 oed, Tai Chi, sesiynau teulu cyn ac ar ôl ysgol, gyda Swyddog y Ganolfan yn ymgysylltu gyda sefydliadau newydd i ddarparu gweithgareddau mwy amrywiol, megis presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd.

Mae presgripsiynu cymdeithasol gwyrdd yn ymarfer o gefnogi pobl i ymgysylltu mewn ymyraethau a gweithgareddau yn seiliedig ar natur er mwyn gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol. Mae gweithwyr cyswllt presgripsiynu cymdeithasol (a gweithwyr proffesiynol eraill mewn rolau cysylltiedig) yn cysylltu pobl i grwpiau cymunedol ac asiantaethau ar gyfer cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, yn seiliedig ar sgwrs 'beth sy'n bwysig i chi'. Mae'r Ganolfan wedi ei chryfhau trwy recriwtio gwirfoddolwyr, nifer ohonynt a oedd, ac yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau'r Ganolfan. Mae'r gwirfoddolwyr wedi ffynnu mewn hyder, sgiliau cyfathrebu a hunan-barch.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru eleni i wella mynediad i gyllid Grant Llywodraeth Cymru. Hwylusodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam ddyfarniad grantiau er mwyn mynd i'r afael ag unigedd ac arwahanrwydd yn y gymuned. Roedd cyrhaeddiad unigryw Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam i'r gymuned ehangach yn golygu bod y grantiau wedi ariannu ystod o anghenion o sesiynau Tai Chi a dawns yn y gymuned i glybiau cinio, sesiynau cefnogi iechyd a lles, yn ogystal â chynyddu hygyrchedd Canol Dinas Wrecsam i'r trigolion hynny yn Wrecsam sy'n teimlo arwahanrwydd cymdeithasol.

## Yr Hwb Lles

Mae'r Hwb Lles yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Mae'r Hwb Lles wedi dod yn enghraifft o iechyd a gofal, a gaiff ei yrru gan atal, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn y boblogaeth a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a lles.

Agorodd yr Hwb Lles i'r cyhoedd ym mis Hydref 2022 ac yn ystod ei 18 mis cyntaf mae cynnydd wedi bod yn nifer y gweithgareddau sy'n digwydd bob mis. Defnyddir yr ystafelloedd a gofodau sydd ar gael gan amryw o sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau atal cynnar. Mae'r Hwb Lles yn hwyluso gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gryfderau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n bwysig i drigolion.

Feedback we have received includes;

'Mae ein cleientiaid wedi gallu cael mynediad at nifer o wasanaethau eraill yn ogystal â'n sesiynau grŵp mewn amgylchedd cyfeillgar, diogel a chynnes. Mae nifer o'n cleientiaid wedi dod yn wirfoddolwyr yn yr Hwb Lles, sydd wedi cynyddu eu hyder a gwella eu lles meddyliol. Mae cleientiaid eraill wedi cael mynediad at y banc bwyd, wedi mynychu nifer o ddiwrnodau gwybodaeth lle maent wedi cael mynediad at gyngor ar bryderon ariannol, pryderon iechyd a llawer mwy. Mae'r Hwb Lles yn ychwanegiad gwerthfawr i gymuned Wrecsam ac mae ein cleientiaid yn gwybod ei fod yn lleoliad diogel y gallent fynd os ydynt angen mwy o gyngor a chymorth' - Cysylltydd iCan KIM Inspire

'Roeddwn wrth fy modd yn chwarae pêl-droed a rygbi, ond y dyddiau hyn mae rhedeg, neidio a dal pêl yn anodd, ond hyd yn oed yn fy henaint mae ystwythder ac ystum corff yn parhau i fod yn bwysig. Mae'r dosbarthiadau Ymarfer yn y Gadair yn yr Hwb Lles wedi bod yn fuddiol iawn.... rydw i bob amser yn teimlo wedi adfywio ac yn llawn egni ar ôl pob sesiwn, ac mae'r rhai ohonom sy'n mynychu'r sesiwn fel arfer yn llawer mwy hapus a hyderus wedyn.' - Adborth gan Drigolyn

## Arolygiaeth Gofal Cymru

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant. Yn dilyn yr arolwg ym Mehefin 2022 a'r adroddiad dilynol, roedd nifer o feysydd angen eu gwella yn y gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

Yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2023, ymwelodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) â Wrecsam i adolygu cynnydd yr awdurdod lleol yn erbyn y meysydd hynny oedd angen eu gwella. Cydnabod adolygaid yr heriau a brofwyd ac yn cydnabod y cynnydd oedd wedi cael ei wneud gan arwain at ddatblygiadau mewn ymarfer a gwell canlyniadau ar gyfer plant ac oedolion.

- Mae gwybodaeth perfformiad ac archwiliadau sicrwydd ansawdd yn parhau i yrru gwelliannau yn y gwasanaethau plant.
- Mae datblygiadau cadarnhaol wedi'u rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â rhestrau aros ac i sicrhau fod model cynaliadwy o ddarpariaeth wedi'i sefydlu er mwyn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.

- Mae'r tîm dyletswydd argyfwng gwasanaethau cymdeithasol yn darparu ymateb amserol a chymesur i argyfyngau sy'n digwydd tu allan i oriau agor arferol.
- Mae ymarferwyr yn datblygu perthnasau gweithio proffesiynol gyda phobl, wedi'i adeiladu ar gydweithredu a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig.

Byddwn yn parhau i weithio ar bob maes sydd angen eu gwella.

# Gwella lles (Y Chwe Safon)

Dyma'r chwe safon y soniwyd amdanyn nhw ynghynt.

Mae llawer o wybodaeth yma, felly rydym ni wedi'u rhannu'n ddwy adran i adlewyrchu'r ddwy adran o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol- Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gofal Cymdeithasol i Blant.

## Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant

Mae hyn yn swnio'n gymhleth, ond mae'n syml mewn gwirionedd.

Rydym ni'n sôn am helpu pobl i wella eu sefyllfa mewn modd sy'n ystyried sut maen nhw'n teimlo, a'r hyn y mae arnynt ei eisiau.

### Gofal Cymdeithasol i Oedolion

#### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Gwerthuso effeithiolrwydd 'micro-gomisiynu'
- Gweithredu Fframwaith Perfformiad i fesur cyflawniadau yn y Gwasanaethau Oedolion. Adolygu, ail-ddylunio a gweithredu proses newydd i archwilio ansawdd y gwasanaethau.
- Datblygu ein strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer Gofal Cymdeithasol ymhellach
- Recriwtio a chyflogi Therapydd Galwedigaethol iechyd meddwl a lles arbenigol i fynd i'r afael â'n rhestr aros bresennol.

#### Dyma beth wnaethom ni

##### Gwerthuso effeithiolrwydd 'micro-gomisiynu'

Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i weithio gyda Chatalyddion Cymunedol i ddatblygu'r Farchnad Micro-Fentrau Cymunedol (CME) yn Wrecsam. Mae llwyddiant sylweddol wedi bod o ran recriwtio CMEs i ddarparu gofal personol i ddinasyddion un ai ar sail cytundeb preifat neu trwy daliadau uniongyrchol. Dros y deuddeg mis diweddaf mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi parhau i weithio'n llwyddiannus ar y cyd â Chatalyddion Cymunedol i gefnogi datblygiad busnesau neu fentrau gofal cymdeithasol bychain.

Mae ein cydweithrediad â Chatalyddion Cymunedol dros y deuddeg mis diwethaf wedi bod yn hanfodol i rymuso unigolion a chymunedau ar draws y Sir wrth greu rhai arbedion o ran costau i’r Cyngor hefyd. Wedi’i ariannu trwy ein Cronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae ein partneriaeth wedi ein galluogi ni i ganfod bylchau mewn gwasanaeth a mynd i’r afael â nhw trwy gefnogaeth micro-fentrau. Mae’r dull hwn wedi bodloni anghenion gofal amrywiol ein preswylwyr, a hefyd wedi arwain at oddeutu £300,000 o arbedion, mae 81 o unigolion yn defnyddio’r taliadau uniongyrchol i brynu 1,075 o oriau o gymorth micro-ofal. Mae gwerthusiad cadarnhaol o’r canlyniadau a dadansoddiad buddion cost yn golygu y gallwn barhau gyda’n partneriaeth lwyddiannus gyda Chatalyddion Cymunedol yn y flwyddyn ariannol i ddod.

### Esbonio’r Jargon

> Mae micro gomisiynu yn golygu chwilio am ofal ar lefel unigol gan sefydliadau bach annibynnol neu drydydd sector yn aml neu unig fasnachwr. Catalyddion Cymunedol.

## Gweithredu Fframwaith Perfformiad i fesur cyflawniadau yn y Gwasanaethau Oedolion

Yn ystod y flwyddyn adrodd 2023/24, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ffurfiodd yr Adran y Prosiect Ymarfer, Perfformiad a Sicrwydd Ansawdd i ganolbwyntio ar yr adolygiad o brosesau busnes gweithredol, gan gynnwys

adolygiad o holl ddogfennaeth gwaith cymdeithasol (ffurflenni) a chofnodion ymarfer, gan weithio tuag at weithrediad llawn o fframwaith perfformiad cadarn i fesur cyflawniadau mewn gwasanaeth.

Trwy waith y prosiect hwn, mae rhaglen archwilio gadarn mewn lle ar draws yr Adran, mae cyfres o adroddiadau perfformiad tîm ar gael i dimoedd rheoli trwy borth adrodd ar-lein, ac mae adolygiadau proses busnes wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus, gan arwain at ddatblygu ffurflenni newydd ac ymarferion cofnodi i gefnogi Fframwaith Sicrwydd Ansawdd yr Adran.

Er y cydnabyddir fod angen i’r cynnydd barhau i’r flwyddyn adrodd nesaf, mae’r gwaith a gwblhawyd eisoes wedi dechrau dangos gwerth trwy ddarparu timoedd rheoli gyda dadansoddiad a data perfformiad i gynorthwyo dealltwriaeth o atgyfeiriadau, asesiadau, pecynnau cefnogi ac adolygiadau ar draws yr Adran.

## Datblygu ein strategaeth recriwtio a chadw ar gyfer Gofal Cymdeithasol ymhellach

Mae ein proses recriwtio wedi newid o ran hysbysebu ein swyddi gwag er mwyn gwella ein cyrhaeddiad. Mae datblygu tab Recriwtio Gofal Cymdeithasol ar ein gwefan ‘gweithio i ni’ wedi ein galluogi ni i ddarparu gwybodaeth ychwanegol wedi’i theilwra am weithio mewn gofal cymdeithasol yn Wrecsam. Mae ymestyn ein defnydd o fideos/blogiau recriwtio, yn amlygu buddion o weithio a byw yn Wrecsam hefyd yn dod yn safon newydd.

Mae ein defnydd o staff asiantaeth i gefnogi ein gweithlu hefyd wedi lleihau yng Ngofal Cymdeithasol, gyda mwy o staff parhaol yn llenwi swyddi gwag. Yn ystod 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024 gwelsom leihad o 56% mewn staff asiantaeth o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn gweithio ar draws Gofal Cymdeithasol.

Rydym wedi bod yn adolygu ystod lawn o becynnau cyflogaeth safonol a gynigir, gan gynnwys dewisiadau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd neu becynnau adleoli. Rydym hefyd yn datblygu tudalennau swyddi ar borth Recriwtio Gofalwn, gyda dolenni i dudalennau swyddi CBSW / gwefan recriwtio Gofal Cymdeithasol.

### Recriwtio a chyflogi Therapydd Galwedigaethol iechyd meddwl a lles arbenigol i fynd i'r afael â'n rhestr aros bresennol

Nid ydym wedi gallu recriwtio Therapydd Galwedigaethol arbenigol ar ôl sawl ymdrech. Cafodd y prosiect ei addasu i gyflogi Asesydd Gofal Cymdeithasol a allai ddefnyddio'r dull ac ymarfer Therapi Galwedigaethol i gefnogi dinasyddion gyda materion Iechyd Meddwl i ddatblygu strategaethau i reoli a gwella eu lles. Rydym wedi llwyddo i benodi ar gyfer y swydd hon.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Rheoli'r galw trwy raglen barhaus o ymyrraeth gynnar, atal ac adolygu effeithiol.
- Rheoli'r gyllideb gofal cymdeithasol heriol er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau statudol

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Datblygu proses drosglwyddo gadarn ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Ofal Cymdeithasol i Oedolion
- Sefydlu'r Protocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu yn llawn a pharhau i ymgysylltu gyda
- phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol, gan barhau i ymgysylltu â mabwysiadu'r offer sgrinio a chynllluniau diogelwch.
- Adolygiad llawn o'r ddogfen Trothwy Gwasanaethau Plant.

## Dyma beth wnaethom ni

### Datblygu proses drosglwyddo gadarn ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Ofal Cymdeithasol i Oedolion

Er mwyn cefnogi trosglwyddiad pobl ifanc o'r Gwasanaethau Plant i Ofal Cymdeithasol i Oedolion, ffurfiodd yr Adran grŵp tasg a gorffen gyda chynrychiolaeth o bob maes o'r gwasanaeth, gan gynnwys Plant Sy'n Derbyn Gofal,, Gadael Gofal, Anabledd i Bob Oed, Gofalwyr Ifanc, Diogelu, Un Pwynt Mynediad Oedolion a Lles Cymunedol.

Cymerodd y grŵp ran mewn trafodaethau a rhoi mewnbwn i Bolisi Trosglwyddo Adran gyfan, sydd yn cydnabod pwysigrwydd rhannu gwybodaeth ar y cam cynharaf, a hefyd yn nodi'r rolau a chyfrifoldebau wrth i ni gefnogi ein pobl ifanc i lywio eu trosglwyddiad i Ofal Cymdeithasol i Oedolion.

### Sefydlu'r Protocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu yn llawn

Yn dilyn lansiad llwyddiannus Protocol Niwed y Tu Allan i'r Teulu yr Adran yn y flwyddyn adrodd 2022/23, mae cynnydd wedi parhau i sicrhau bod egwyddorion y protocol yn cael eu cynnal gydag aelodaeth Gwasanaethau Plant ar fforymau rhanbarthol (h.y. Fforwm Caethwasiaeth Fodern, Grŵp Llywio MARAC a VAWDASV, Bwrdd Pobl Ddiamddiffyn a Chamfanteisio Gogledd Cymru a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol). Mae cynrychiolaeth gyson yn y grwpiau rhanbarthol hyn yn sicrhau eir i'r afael â materion mewn perthynas â niwed tu allan i'r teulu yn aml, a gallent oll gael eu codi â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol y Cyngor gydag unrhyw feysydd ar gyfer gwelliant yn eu datblygiad yn cael eu hystyried fel rhan o Gynllun y Cyngor.

### Adolygiad llawn o'r ddogfen Trothwy Gwasanaethau Plant

Ar ôl lansio ein dogfen Trothwy Gwasanaethau Plant yn wreiddiol ym Medi 2021, cipiodd yr Adran y cyfle i gyflawni adolygiad llawn o'r cynnwys yn y flwyddyn adrodd 2023/24, ar ôl bod mewn gweithrediad am dros 12 mis. Er nad oedd yr adolygiad angen unrhyw newidiadau mawr i'r ddogfen, teimlwyd gan fod y polisi yn nodi dull i ddarparu cymorth i deuluoedd er mwyn annog mwy o gyfle i atal ac yn helpu i atal uwchgyfeirio amhriodol, cafodd y polisi diwygiedig ei gyhoeddi yn Hydref 2023 gyda'r enw "Gwneud Pethau'n Gywir i Deuluoedd, y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir."

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Datblygu proses drosglwyddo gadarn ar gyfer pobl ifanc sy'n trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Ofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gweithredu Dull wedi'i Lywio gan Drawma ar draws Gofal Cymdeithasol i Blant;
- Gweithredu Dull sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ar draws Gofal Cymdeithasol i Blant

# Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol

Mae hyn yn golygu cynorthwyo pobl i ofalu am eu hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Sefydlu dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chryfderau.
- Ail-fodelu ein Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad i ganolbwyntio ymhellach ar atal a lles, gan wneud yn fawr o'r asedau cymunedol a galluogi mwy o bobl ddiwallu eu canlyniadau lles tu allan i ddarpariaeth gwasanaethau statudol.

#### Esbonio'r Jargon

Yr Un Pwynt Mynediad yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno gwneud atgyfeiriad newydd i'r Gwasanaethau, gan gynnwys asiantaethau partner ac aelodau o'r cyhoedd.

### Dyma beth wnaethom ni

#### Sefydlu dull ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a chryfderau

Mae dinasyddion yn dweud wrthym ni trwy ymchwil ac adborth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, eu bod eisiau byw mor annibynnol â phosibl, cyn hired â phosibl yn eu cartref eu hunain; a chael eu cefnogi i wneud defnydd i'r sgiliau a'r asedau sydd ar gael iddynt. I'r diben hyn, ac yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, rydym wedi cyflwyno rhaglen o Hyfforddiant Asesu yn Seiliedig ar Gryfderau ac yn Canolbwyntio ar Ganlyniadau ar draws y Gwasanaethau Oedolion. Mae'r hyfforddiant yn uwchsgilio ymarferwyr (hen a newydd) i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddinasyddion, gan ddechrau o drafodaeth yn seiliedig ar gryfderau. Mae hyn yn golygu y dylai pobl gael eu presgripsiynu'r swm cywir o wasanaethau gofal ffurfiol sydd eu hangen arnynt i alluogi pobl, teuluoedd a chymunedau i wneud cymaint â gallent dros eu hunain, gyda mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth priodol.

I'r diben hyn, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau atal, gwasanaethau i gefnogi gofalwyr di-dâl a datblygiadau mewn teleofal, a bydd gennym fwy o wybodaeth ar sut mae hyn yn gweithio'r flwyddyn nesaf.

Er mwyn cefnogi ein hymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gynnwys ein gwaith ar atal, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio technoleg gynorthwyol fel offer i'n helpu ni.

Fe wnaethom brynu dyfais o'r enw RITA, wedi'i ddatblygu gan My Improvement Network (MIN). Mae'n system ddigidol therapiwtig sy'n galluogi dinasyddion i ymgysylltu gydag ymyraethau therapiwtig megis cyfryngau hanesyddol i hyrwyddo lles ac yn darparu mynediad at ystod o weithgareddau therapiwtig trwy ddyfais sgrin gyffwrdd hawdd ei ddefnyddio. Mae'r ddyfais hon wedi cael ei chreu'n benodol i gynorthwyo'r rhai â dementia a'r rhai sydd â salwch yn gysylltiedig â dementia i wella eu hiechyd, lles a chyfathrebu cyffredinol.

'Nod RITA yw cynnig cymorth ar gyfer pobl hŷn, pobl gyda phroblemau iechyd meddwl ac anawsterau dysgu a chleifion ag anafiadau i'r ymennydd, fel ffordd o'u cefnogi nhw, a lleihau eu haflonyddwch, arwahanrwydd, iselder a deliriwm.' - My Improvement Network

Er mwyn ein sicrhau ein bod yn darparu'n gyson ar ein gwerthodd yn seiliedig ar gryfderau ac yn rhoi'r rhain ar waith, fe wnaethom hefyd gyflwyno panel gofal cymunedol eleni. Mae'r panel yn helpu i sicrhau fod pob cynllun gofal yn canolbwyntio ar ganlyniadau, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dechrau o ddull yn seiliedig ar gryfderau. Mae'r panel hefyd yn ein cefnogi ni i reoli ein hadnoddau yn fwy effeithiol a theg. Mae ymarferwyr wedi croesawu'r cyfle i ddysgu oddi wrth ei gilydd o ran ffyrdd newydd ac arloesol o gefnogi dinasyddion i gyflawni eu canlyniadau lles, yn aml mewn ffyrdd amgen i ofal goresgynnol neu ofal preswyl sy'n cael ei or-bresgripsiynu. Wrth wneud hyn, rydym hefyd wedi cefnogi i reoli cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yn ystod cyfnod heriol iawn.

## Ail-fodelu ein Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad

Gwnaed penderfyniad i rannu swyddogaethau ein gwasanaeth drws ffrynt Un Pwynt Mynediad, er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb i ddinasyddion gyda'r lefel briodol o gefnogaeth er mwyn eu galluogi i gael mynediad i'r llwybr cymorth cywir. Bydd ail-fodelu'r gwasanaeth fel hyn yn darparu dull wedi'i deilwra ac yn sicrhau fod y gwasanaethau iawn wedi'u hymgysylltu i'r bobl gywir.

Bu i ni gynnal ymarfer ymgynghori gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau er mwyn sicrhau mai dyma'r ffordd gywir ymlaen a thrwy wrando ar ein dinasyddion, daeth yn amlwg ein bod angen model gwahanol er mwyn sicrhau fod cael mynediad at wasanaethau yn cael ei symleiddio a lleihau'r angen i ailadrodd gwybodaeth.

Trwy greu tîm arbenigol i gefnogi'r dinasyddion hynny ag anghenion mwy cymhleth, gallwn eu cyfeirio at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn gyflymach. Gyda chanolbwynt ar ymyrraeth gynnar a dull sy'n seiliedig ar gryfderau bydd hyn yn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau personol, a chael y mynediad cywir at yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Hefyd, yn gwella ein 'cynnig drws ffrynt' y mae ein Hwb Lles integredig, y bu i ni ei agor i'r cyhoedd ym mis Hydref 2022 a lle mae cynnydd wedi bod yn nifer y gweithgareddau sy'n digwydd bob mis. Defnyddir yr ystafelloedd a gofodau sydd ar gael gan amryw o sefydliadau sy'n darparu gweithgareddau atal cynnar. Mae'r Hwb Lles yn hwyluso gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gryfderau er mwyn darparu gwasanaethau sy'n bwysig i drigolion.

Yn ystod blwyddyn gyntaf ei weithrediad, cynhaliwyd 1367 o weithgareddau cynlluniedig a 1279 o sesiynau galw heibio anffurfiol, ac edrychwn ymlaen at wahodd mwy o sefydliadau a mwy o ddinasyddion i'r Hwb Lles dros y deuddeg mis nesaf. Mae'r Hwb Lles hefyd yn creu pwynt mynediad syml a chlir i gefnogi dinasyddion i wneud dewisiadau bywyd iachach yn hytrach na nifer o wasanaethau traddodiadol ar gyfer materion sengl sy'n achosi dryswch ar gyfer y rhai sy'n atgyfeirio a'r cyhoedd hefyd. Yn y flwyddyn gyntaf o weithredu mae'r Hwb Lles wedi derbyn 423 o geisiadau am wybodaeth.

Mae ychydig o'r adborth yr ydym wedi'i gael yn cynnwys:

"...mantais arall o weithio o'r Hwb Lles yw'r gallu i drosglwyddo rhywun yn esmwyth yn syth o'u hapwyntiad seicoleg i ddwylo diogel staff yr Hwb a all eu cefnogi nhw i gael mynediad at bob math o wasanaethau ac adnoddau ychwanegol. Mae ein cleifion yn profi cefnogaeth esmwyth a chyson ac mae ein staff yn teimlo'n fwy bodlon ein bod yn darparu cefnogaeth holistaidd a arweinir gan anghenion i'n cleifion. Rydym yn gwerthfawrogi gallu gweithio o'r Hwb Lles a'r gefnogaeth a'r mynediad mae'r staff yn ei ddarparu. Mae ein cleifion hefyd yn adrodd yr un fath yn gyson.' - Gwasanaeth Covid Hir BIPBC.

'...rydym wedi gwneud defnydd rheolaidd o logi'r gofodau gwych, yn ogystal â gwneud defnydd o'r mannau agored.

Mae cynnal sesiynau Iechyd a Lles yn y gymuned yn golygu lleoliadau hygyrch a chroesawgar, ac mae'r Hwb Lles yn cynnig y ddau. Mae'r staff rheoli a blaen tŷ bob amser yn ofalgar ac yn hawdd gweithio â nhw, gan helpu'r cyhoedd gyda'u hanghenion lles. - Tîm Gwella Iechyd BIPBC

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Lansio ein Tîm Ymyrraeth Gynnar gan gymryd dull sy'n seiliedig ar gryfderau
- Datblygu ein Gwasanaethau Atal er mwyn darparu model gwell i gefnogi dinasyddion mor gynnar â phosibl ar eu taith.
- Datblygu a gweithredu Porth gwybodaeth a fydd yn galluogi dinasyddion i gael mynediad at wybodaeth am Ofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Cymunedol

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Ehangu cyfranogiad y Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal i gynnwys cyfranogiad mewn cyfweliadau staff ac adolygu/datblygu polisïau'r adran.
- Parhau i hybu pwysigrwydd Gwaith Siwrnai Bywyd drwy gynadleddau a gweithdai blynyddol.

## Dyma beth wnaethom ni

### Ehangu cyfranogiad y Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal

Mae Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal Wrecsam wedi mynd i nerth i nerth yn y deuddeg mis diwethaf gyda phobl ifanc yn cymryd rhan weithredol mewn adolygu polisi, cyfweliadau staff a datblygiadau'r adran.

Trwy Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol sy'n gysylltiedig â'r grwpiau, mae'r Cyngor Pobl Ifanc mewn Gofal yn ymwybodol o bolisïau'r adran sydd angen eu hadolygu a chreu amserlen o ymgynghoriad lle mae cyfle iddynt gymryd rhan weithredol yng nghynnwys y polisi, gan eu grymuso â'r gallu "i ddweud eu dweud" mewn meysydd sy'n effeithio ar eu bywydau.

### Hybu pwysigrwydd Gwaith Siwrnai Bywyd drwy weithdai a chynadleddau blynyddol

Mae hybu pwysigrwydd Gwaith Siwrnai Bywyd yn parhau i fod yn flaenllaw ar gyfer y Gwasanaethau Plant. Derbyniodd datblygiad Polisi Gwaith Siwrnai Bywyd y Gwasanaethau Plant adborth cadarnhaol gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mynychodd dros 100 o bobl y Gynhadledd Flynyddol gan gynnwys cynrychiolwyr trydydd sector, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cefnogi.

Mae'r dull hwn yn parhau gyda'r datblygiad newydd o becyn hyfforddi pwrpasol, wedi'i ddylunio gan weithgor Gwaith Siwrnai Bywyd, yn arbennig i hybu pwysigrwydd a chyfrifoldeb gofalwyr maeth yn y maes pwysig hwn. Cafodd y grŵp eu

cefnogi gan ofalwyr maeth, a oedd yn gallu darparu profiad go iawn o waith siwrnai bywyd gyda'n plant mewn gofal. Roedd y cyfranogiad hwn yn galluogi pecynnau hyfforddiant i gael eu teilwra i anghenion y gofalwr maeth, gan bwysleisio pwysigrwydd gwaith siwrnai bywyd ar gyfer y plant rydym yn eu cefnogi.

Rhagwelir y bydd datblygiad pecyn hyfforddi gofalwyr maeth yn cael ei gwblhau yn Ebrill 2024 gan ei gyflwyno i ofalwyr maeth hwyrach yn yr un flwyddyn.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Gweithredu arferion da ar gyfer gweithio gyda thadau.
- Datblygu a gwella ein cynnig lleoliadau mewnol ar gyfer maethu a gofal preswyl.

# Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

Mae hyn yn golygu helpu i ddiogelu pobl a allai fod mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu ffurfiau eraill o niwed neu gam-fanteisio.

Parhau mae ein blaenoriaeth i ddiogelu pobl a theuluoedd a defnyddio holl adnoddau sydd ar gael i ni.

Mae'r timau diogelu oedolion a diogelu plant a'r timau sicrwydd ansawdd yn parhau i ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym. Mae'r dull wedi bod yn arloesol ac yn hyblyg drwy ddefnyddio cyfarfodydd ar-lein, bod yn greadigol gyda'r ffordd yr ydym yn cynnal a hwyluso cyswllt, wrth barhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch ein dinasyddion a staff.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Ail-ddylunio gwasanaethau Un Pwynt Mynediad effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.
- Cyflawni ymgysylltiad gyda budd-ddeiliaid er mwyn adolygu cynaliadwyedd ein gwasanaethau Therapi Galwedigaethol a lleihau rhestrau aros

### Dyma beth wnaethom ni

#### Ail-ddylunio gwasanaethau Un Pwynt Mynediad effeithiol ac effeithlon ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu ffordd fwy effeithiol o ddarparu ein Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad i ddinasyddion Wrecsam.

Edrychom ar holl swyddogaethau ein darpariaeth Un Pwynt Mynediad presennol a'u rhannu i sicrhau mwy o eglurder. Mae hyn wedi ein galluogi ni i sicrhau fod dinasyddion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth sydd ei angen arnynt y tro cyntaf, ac mae hefyd wedi ein helpu ni i flaenoriaethu swyddogaethau hanfodol Un Pwynt Mynediad er mwyn ei wneud yn fwy effeithlon a haws ei ddefnyddio. Lansiwyd y gwasanaeth ar ei newydd wedd yn Chwefror 2024 a disgwyliwn y bydd y newidiadau yn cael adborth da.

Ynghyd â'r newidiadau hyn rydym hefyd wedi gweithredu gwell gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth trwy ddod a holl alwadau allanol i ofal cymdeithasol yn uniongyrchol i'r adran. Trwy beidio â defnyddio'r Ganolfan Gyswllt i hidlo ac ailgyfeirio galwadau, mae'n darparu siwrnai fwy esmwyth i'r dinasyddion hynny sydd angen ein gwasanaethau a chefnogaeth.

## Adolygu cynaliadwyedd ein gwasanaethau Therapi Galwedigaethol a lleihau rhestrau aros

Rydym wedi gwneud cynnydd mawr i wella ein cynnig Therapi Galwedigaethol eleni, gan leihau ein rhestr aros 70% gan arwain at amseroedd aros gwell a chanlyniadau gwell ar gyfer dinasyddion.

Mae ymrwymo adnoddau i asesu ein rhestrau aros presennol, gan gymryd dull sy'n seiliedig ar gryfderau, wedi ein galluogi ni i leihau'r nifer o ddinasyddion sy'n aros am wasanaethau. Gall adnabod y rhai sydd angen cefnogaeth gwasanaethau amgen, megis cymorth tai, arwain at leihad pellach mewn rhestrau aros, a hefyd sicrhau nad ydynt yn aros am y gwasanaethau anghywir.

Rydym hefyd wedi datblygu offer hunan-gymorth pwysig i'r bobl hynny sy'n gallu hunan-reoli gan fod ganddynt y wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth gywir i wneud hynny ac atal yr angen am ymyrraeth statudol. Mae'r dull hwn yn gweithio'n dda gyda phobl yn cael eu cefnogi i aros yn annibynnol ac mewn rheolaeth o'u hanghenion cefnogi.

- Sylwadau dinesydd un: "Rydw i'n teimlo fy mod yn rheoli tasgau yn haws a dydw i ddim eisiau cymaint o gefnogaeth gan fy nheulu. Rwy'n fwy hyderus yn fy nghartref rŵan ac yn gwybod ble i gael cefnogaeth i fy helpu i ddychwelyd i wneud y pethau rwy'n mwynhau. Rydw i'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a dderbyniais."
- Sylwadau dinesydd dau: "Rydw i'n teimlo bod pawb wedi fy helpu i ar ôl fy nghodwm, ac rwyf bellach yn gallu gwneud popeth sydd angen i mi ei wneud a mynd ar y bws ac allan fel yr oeddwn i'n gwneud cyn fy nghodwm. Roedd pawb mor gyfeillgar ac rwy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gefais."
- Sylwadau dinesydd tri: "Ni allaf ddiolch digon am y cymorth a'r gefnogaeth a dderbyniais, mae wedi bod o'r radd flaenaf - Diolch yn fawr"
- Sylwadau dinesydd pedwar: "Rŵan fy mod yn gallu glanhau fy hun yn iawn, rwy'n teimlo'n fwy hyderus i fynd allan a gweld pobl."

Rydym hefyd wedi datblygu'r Gwasanaeth Atal Integredig wedi'i ddynodi i ddarparu cefnogaeth Therapi Galwedigaethol tymor byr ac mae'n gwbl weithredol gan weithio'n agos gyda'r timoedd gwasanaethau ail-alluogi ac atal i gefnogi gydag atal mynd i'r ysbyty neu ryddhad diogel ac amserol o'r ysbyty gan alluogi'r dinasyddion hynny i barhau i wneud pethau dros eu hunain os allent.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Cyflawni adolygiad o'r Panel Gofal i Oedolion a'i effeithiolrwydd fel ffordd o gomisiynu gofal cymwys yn ddiogel yng nghyd-destun cyllidebau llai.
- Codi ymwybyddiaeth o Adran 5 (Unigolion mewn Safle o Ymddiriedaeth) - ar gyfer proses atgyfeirio oedolion mewn risg, penderfynu'r ffordd briodol ymlaen, holl asiantaethau yn cydweithio i sicrhau eglurder ac arferion gorau.

# Gofal Cymdeithasol i Blant

## Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Mabwysiadu a lansio polisïau Panel Channel a Chaethwasiaeth Fodern yn ffurfiol.
- Datblygu dull amhariad ar gyfer plant sydd ar goll a/neu'n destun cam-fanteisio
- Paratoi ar gyfer gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

## Dyma beth wnaethom ni

### Mabwysiadu a lansio polisïau Panel Channel a Chaethwasiaeth Fodern yn ffurfiol.

Yn gysylltiedig â Bwrdd Diogelu Corfforaethol y Cyngor, lluniwyd tri pholisi, mewn ymgynghoriad â chydweithwyr ar draws y Cyngor, partneriaid allanol ac undebau llafur er mwyn cydnabod yn ffurfiol bwysigrwydd adnabod arwyddion cynnar o bryder yn y meysydd hyn, sicrhau bod llwybrau effeithiol i adrodd am bryderon, a sicrhau bod holl staff ledled y Cyngor wedi'u hyfforddi a'u hysbysu'n ddigonol.

Ym mis Ionawr 2024, cafodd y tri pholisi eu cymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol y Cyngor a byddant yn cael eu hadolygu yn 2025.

### Datblygu dull amhariad ar gyfer plant sydd ar goll a/neu'n destun camfanteisio

Mae Gwasanaethau Plant wedi bod yn rhan weithredol o grŵp tasg a gorffen, gan weithio i nodi anghenion plentyn lle mae dull amhariad yn digwydd. Mae hyn nid yn unig ar gyfer plant sydd ar goll a/neu'n destun camfanteisio, ond ar gyfer yr holl blant ar draws y continwwm gofal cyfan. Mae'r prosiect yn golygu gweithio'n agos gyda'r pedwar darparwr sy'n darparu gwasanaethau amhariad ar draws Gogledd Cymru a Lloegr. Disgwylir i'r prosiect hwn gael ei gynnal am 2-3 blynedd gyda'r flwyddyn gyntaf yn mapio datblygiadau ac yn penderfynu cwmpas y prosiect wedi mynd yn dda iawn. Y camau nesaf yw penderfynu pa gyllid sydd ar gael a phwy fydd yn ei ddarparu.

### Paratoi ar gyfer gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Mewn ymateb i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid arfaethedig, nodwyd a threfnwyd grwpiau tasg a gorffen cyn y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gweithrediad y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 (Deddf 2019) gyda chyfranogiad gweithredol ar draws yr Adran, Adnoddau Dynol a Chyfreithiol.

Yn Ebrill 2023, daeth y gwaith hwn i ben gydag oedi o ran cyhoeddi’r canllawiau mewn perthynas â’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a’r hysbysiad dilynol gan Lynne Neagle, Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles ar 5 Ebrill 2023. Roedd yr hysbysiad a dderbyniwyd yn cadarnhau fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bwriad i gamu’n ôl o gyflwyno’r Trefniadau Diogelu Rhyddid.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Datblygu dull amhariad ar gyfer plant sydd ar goll a/neu’n destun camfanteisio
- Lansio model cynhadledd amddiffyn plant effeithiol

# Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

Mae'r safon hwn yn ymwneud ag annog pobl i gymryd rhan yn eu cymdeithas - eu helpu i ddysgu, rhyngweithio â phobl eraill a bod yn rhan o'u cymunedau.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Cyflawni Statws o Blaid Pobl Hŷn gan Sefydliad Iechyd y Byd - Nhw yw asiantaeth y Cenhedloedd Unedig sy'n cysylltu cenhedloedd, partneriaid a phobl er mwyn hyrwyddo iechyd, cadw'r byd yn ddiogel a gwasanaethu'r diamddiffyn - fel y gall bawb, ymhobman fod â'r lefel uchaf o iechyd (WHO)
- Datblygu Strategaeth Awtistiaeth ac adolygu'r Cod Ymarfer er mwyn deall sut y gall elwa ein cymunedau

### Dyma beth wnaethom ni

#### Cyflawni Statws o Blaid Pobl Hŷn gan Sefydliad Iechyd y Byd

Mae Wrecsam ar y trywydd i ennill statws o Blaid Pobl Hŷn gan Sefydliad Iechyd y Byd. Rydym yn casglu tystiolaeth ac yn sefydlu fforymau i atgyfnerthu ein hymgais.

Bydd tystiolaeth o gamau a gymerwyd i weithredu'r strategaeth yn cynnwys datblygu prosiectau, newidiadau i bolisïau a rhaglenni cymdeithasol. Bydd angen canlyniadau a chynnydd mesuradwy i olrhain effeithiolrwydd y mentrau. Bydd angen i'r mentrau neu wasanaethau fod mewn lle i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymysg preswylwyr hŷn, gan wella eu hiechyd a lles.

Mae tystiolaeth o ymgysylltiad cymunedol a chynnwys pobl hŷn mewn proses ymgynghori i benderfynu beth sy'n bwysig ar gyfer mynd yn hŷn. Mae cydweithrediad a chyfranogiad budd-ddeiliaid, yn arbennig o awdurdodau lleol ac iechyd yn allweddol wrth wneud cais am y statws i sicrhau bod holl anghenion cymunedol yn cael eu diwallu lle bo'n bosibl.

Hefyd, rydym ar hyn o bryd yn sefydlu Fforwm Heneiddio'n Dda. Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer pobl 50+ oed yn cael ei gynnal i weld beth mae preswylwyr Wrecsam yn ystyried yn hanfodol er mwyn heneiddio'n dda. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn hysbysu cread y Strategaeth Heneiddio'n Dda a Strategaeth Rhwng Cenedlaethau.

### Datblygu Strategaeth Awtistiaeth ac adolygu'r Cod Ymarfer

Rydym yn gweithio gyda'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol i ddatblygu a phrofi ein cydymffurfiaeth a Chod Ymarfer Awtistiaeth. Rydym yn ymwybodol, er gwaethaf y gwaith rydym yn ei wneud, nad yw rhai teuluoedd yn ein cymuned yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael i'w helpu. Rydym yn gweithio i sicrhau ein bod yn newid hyn gyda'n dinasyddion. Mae 'Dy Le Di' yn elusen awtistiaeth yr ydym yn gweithio â nhw i ddatblygu cymorth pellach. Dros y flwyddyn ddiwethaf maent wedi;

- Cynnig gwasanaethau cwnsela i 27 unigolyn gyda 23 o'r rheiny yn blant neu bobl ifanc.
- Derbyn 19 o atgyfeiriadau estyn allan ers Tachwedd 2023. O'r rheiny mae 3 yn derbyn cefnogaeth, mae 3 ag apwyntiad ac yn disgwyl i gael eu gweld ac mae'r 13 arall yn disgwyl i gael trefnu apwyntiad.
- Derbyn 49 o gofrestriadau gan bobl ifanc ar gyfer gweithgareddau. O'r rhain mae 20 wedi dychwelyd gyda cheisiadau wedi'u cwblhau ac ymweliadau wedi'u trefnu, mae 12 yn disgwyl cyswllt, ac mae 16 arall ar y rhestr aros ar gyfer lle mewn sesiynau.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Cyflawni Adolygiad Iechyd Meddwl i gynnwys y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, modelau atal a datblygu ein darpariaeth fewnol.
- Defnyddio canlyniad yr adolygiad i lywio datblygiad cynnig gwasanaeth newydd, yn gweithio gyda'r trydydd sector i adolygu/ailstrwythuro ein gwasanaethau cefnogi presennol ar gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl lefel isel.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Cynnydd i'r cam nesaf o ddatblygu'r Hwb Lles, gan gynnwys cyfranogiad y trydydd sector, agor y caffi ac adolygu'r oriau agor.
- Adolygiad llawn o'r cynnig cyn-geni yn y Gwasanaethau Plant.
- Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phlant nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd.

## Dyma beth wnaethom ni

### Cynnydd i'r cam nesaf o ddatblygu'r Hwb Lles

Yn dilyn llwyddiant agoriad yr Hwb Lles yn Hydref 2022, mae'r Hwb wedi mynd o nerth i nerth gyda nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal bob mis ac ystafelloedd yn cael eu defnyddio gan ystod o sefydliadau yn darparu gweithgareddau atal yn gynnar.

Yn 2023, agorodd yr Hwb y Caffi Lles gan groesawu sefydliadau'r trydydd sector megis KIM Inspire, Advanced Brighter Futures ac Adferiad, sydd oll yn cynnal sesiynau rheolaidd i wella mynediad cynnar tuag at wasanaethau atal ac iechyd meddwl.

Yn ei flwyddyn gyntaf o weithredu, mae'r Hwb wedi cynnal dros 1,300 o weithgareddau cynlluniedig ac mae partneriaethau gyda sefydliadau trydydd sector ychwanegol yn parhau i gael eu sefydlu.

### Adolygiad llawn o'r cynnig cyn-geni yn y Gwasanaethau Plant

Fel rhan o adolygiad o'r cynnig cyn-geni yn y Gwasanaethau Plant, sefydlwyr grŵp tasg a gorffen llwyddiannus i greu partneriaeth rhwng Gwasanaethau Plant a'n cydweithwyr iechyd a bydwragedd i gefnogi mamau beichiog a babanod heb eu geni ymhellach.

Trwy'r gwaith hwn, cafodd y Cyfarfodydd Cyswllt Cyn-Geni eu lansio'n llwyddiannus. Maent wedi gweithio i ganfod bregusrwydd a darparu cefnogaeth ataliol ar gyfer mamau beichiog, wrth rannu gwybodaeth cyn gynted â phosibl.

Er mwyn parhau i bwysleisio ar y maes gwaith hwn, mae adolygiad pellach o'r broses cyn-geni wedi'i gynllunio ar gyfer 2024/25.

### Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phlant nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd

Trwy gydol y flwyddyn, mae Gwasanaethau Plant wedi gwella i weithio cyfathrebu a rhannu gwybodaeth o ran plant nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu cysylltiadau trwy gyfarfodydd gweithredol Plant Sy'n derbyn Gofal, gan gynnwys swyddogion o'r Gwasanaethau Addysg er mwyn trafod unrhyw blant nad ydynt mewn addysg ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn wedi helpu i gryfhau perthnasau rhwng Rhianta Corfforaethol ac Addysg, ac yn cynnwys ychwanegiad Pennaeth Gwasanaeth Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol i Banel Llety'r Adran gan ystyried plant hynny sy'n dod dan ofal yr Awdurdod Lleol.

Mae Swyddog Gwella Ysgolion a Phennaeth Gwasanaeth Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd wedi ymuno â chyfarfodydd misol yr Uwch Dîm Rheoli Plant, er mwyn sicrhau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth effeithiol o ran plant nad ydynt yn cael mynediad at addysg neu blant sy'n cael eu haddysgu gartref.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Expand our kick start provision for care leavers enabling them to step out of care and live independently
- To work with education and health in the repatriation of looked after children who are out of county to ensure the health and education needs continue to be met locally

# Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

Mae'r safon hon yn helpu pobl i gyflawni perthnasoedd iach yn y cartref a gyda'r bobl y maen nhw'n agos atyn nhw.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Datblygu cynnig mwy cadarn i Ofalwyr Di-dâl gan gynnwys manylion gwasanaeth a chontract newydd
- Datblygu strategaeth gyfathrebu er mwyn galluogi i ofalwyr di-dâl adnabod eu hunain a cheisio ymyrraeth
- Cynyddu nifer yr Asesiadau Gofalwyr Di-dâl
- Gweithio gyda chyflogwyr yn Wrecsam i ddatblygu cymorth ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu hadnabod fel gofalwyr di-dâl

### Dyma beth wnaethom ni

#### Datblygu cynnig mwy cadarn i Ofalwyr Di-dâl

Rydym wedi cyflawni llawer o waith i ddatblygu cynnig mwy cadarn i Ofalwyr Di-dâl. Mae manyleb gwasanaeth newydd wedi cael ei ddatblygu ar ôl gwaith ymgynghori helaeth gyda gofalwyr di-dâl yn y gymuned a thrwy ein Harolwg Gofalwyr Di-dâl. Bydd y fanyleb gwasanaeth newydd yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl tu allan i oriau swyddfa arferol, yn ogystal â hyrwyddo pwysigrwydd asesiadau o anghenion gofalwyr a chanfod gofalwyr di-dâl yn Wrecsam.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n gwasanaeth gofalwyr di-dâl oedolion a darparwyr gwasanaeth gofalwyr ifanc i ddatblygu trosglwyddiad mwy esmwyth o fod yn ofalwr ifanc i fod yn ofalwr di-dâl sy'n oedolyn. Mae gennym ddigwyddiad pontio'r cenedlaethau wedi'i drefnu ar gyfer Mai 2024 a fydd yn gweld gofalwyr ifanc a gofalwyr di-dâl sy'n oedolion, yn dod ynghyd i rannu profiadau mewn digwyddiad hwyliog ac anffurfiol ym Mharc Gwledig Tŷ Mawr.

Mae cyflwyniad 'Fforwm Gofalwyr Di-dâl' newydd yn cynnig cyfle i ofalwyr di-dâl i leisio eu barn a rhoi adborth ar y gwasanaethau maent wedi'u derbyn. Hefyd mae 'Fforwm Dementia' a 'Fforwm Teuluoedd Anabledd' lle mae profiad gofalwyr di-dâl yn helpu i lywio gwelliannau.

## Strategaeth Gyfathrebu i'w datblygu ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Mae strategaeth gyfathrebu ar gyfer gofalwyr di-dâl wedi cael ei ddatblygu a'i weithredu. Bydd y strategaeth yn cael ei diweddaru bob chwe mis ac yn ystyried diwrnodau cenedlaethol (Wythnos y Gofalwyr, Diwrnod Hawliau Gofalwyr ac ati). Mae'r strategaeth yn darparu cyfarwyddiadau ar sut ddylai negeseuon gael eu darparu i'r cyhoedd. Wrth symud ymlaen, bydd y canolbwynt ar gynnwys digidol ac yn benodol fideos, yn ogystal â pharhau i hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr di-dâl yn Wrecsam a'r hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr.

## Cynyddu nifer yr Asesiadau Gofalwyr Di-dâl

Yn ystod haf 2023, ymwelodd GOGDdC a'r Swyddog Datblygu Gofalwyr Di-dâl â dros 15 o leoliadau gwahanol ar draws y fwrdeistref sirol gan fynd a gwybodaeth a chyngor i'r ardaloedd hynny sy'n anodd eu cyrraedd, ac i grwpiau a sefydliadau yn cynnal gweithgareddau a chyfarfodydd mewn canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd, tafarndai a chanolfannau garddio. Fe wnaethom ddarparu gwybodaeth yn uniongyrchol i 147 o ofalwyr di-dâl a chofrestrodd 49 o ofalwyr di-dâl newydd gyda GOGDdC. Fe wnaeth gwasanaeth gofalwyr ifanc WCD hefyd fynychu nifer o'r dyddiadau ar draws y sir i roi gwybodaeth a chyngor i ofalwyr ifanc mewn cymunedau.

Roedd y sioeau teithiol yn llwyddiant ysgubol ac o ganlyniad, trefnwyd mwy o ddyddiadau yn yr hydref ar gyfer Diwrnod Hawliau Gofalwyr.

## Adborth aelod staff GOGDdC

"Roedd y staff wir wedi mwynhau. Mynd allan i gwrdd â phobl yn eu cymunedau eu hunain. Cawsom ni lawer o adborth cadarnhaol gan ofalwyr, yn bennaf yn ymwneud â chwrdd â ni, cael gwybodaeth a dechrau'r sgwrs gyntaf honno gyda ni. Mae staff hefyd wedi sôn wrtha i fod gan rai o'r gofalwyr y maen nhw'n dal i weithio gyda nhw swyddogaethau gofalu sylweddol iawn ac nad oedden nhw wedi cysylltu o'r blaen, felly mae tystiolaeth ei fod yn gweithio i ddod o hyd i ofalwyr nad oeddem ni'n ymwybodol ohonynt. Yn ogystal â hyn i gyd, helpu i sgwrsio â'r gofalwyr nad ydyn nhw'n ystyried eu hunain yn ofalwyr."

## Adborth Asiant Cymunedol

"Rwy'n credu bod y sesiwn y gwnaethoch chi ei gynnal yn Neuadd Goffa Oliver Jones, Dolywern yn ddefnyddiol iawn ac yn sesiwn yr oedd yn wir ei angen. Rhoddodd gyfle i bobl ddysgu'n union beth yw gofalwr a'r hyn mae'n ei wneud! Gwnaeth y sesiwn synnu rhai unigolion oherwydd gwnaethon nhw sylweddoli eu bod nhw mewn gwirionedd yn ofalwyr. I mi, mae'n bwysig iawn cydnabod pwysigrwydd gofalwyr a rhoi gwybod iddyn nhw pwy a beth sydd ar gael i helpu'r rhai sy'n gwneud eu rôl nhw oherwydd am gyfnod rhy hir, nid yw pobl wedi bod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddyn nhw, gan wneud i'r gofalwr deimlo'n ynysig ac unig iawn. Pob hwyl i chi wrth rannu'r neges ymhellach a gwneud pobl yn ymwybodol, a diolch yn fawr iawn am ymweld â ni."

### Datblygu cefnogaeth ar gyfer gweithwyr sy'n dynodi eu hunain fel gofalwyr di-dâl

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam bellach yn aelod o Gynllun Cyflogwyr i Ofalwyr, Gofalwyr Cymru. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n staff ac yn cydbwyso gwaith llawn a rhan amser ar y cyd a'u rolau gofalu. Mae bod yn aelod yn galluogi ein staff i gael mynediad at borth sydd wedi'i ddynodi i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae'r porth ar-lein yn llawn o ganllawiau ymarferol, modiwlau e-ddysgu a phecynnau gwaith i helpu cefnogi gofalwyr di-dâl a rheolwyr atebol.

Rydym hefyd wedi hwyluso gweithdai ar gyfer staff ar destunau amrywiol megis "Rheoli Euogrwydd a Gwybod eich Hawliau fel Gofalwr Di-dâl". Hefyd fe gynhaliom weithdy ar gyfer ein cefnogwyr lles er mwyn eu helpu i ddysgu mwy am sut i gefnogi gofalwyr di-dâl. Rydym hefyd yn cynnal caffi misol i ofalwyr di-dâl yn ein Hwb Lles i staff gael mynediad at gefnogaeth rhwng cyfoedion, derbyn cyngor a gwybodaeth gan GOGDdC a Chefnogwyr Lles.

**Esbonio'r Jargon**

> Cefnogwyr Lles - yw pobl sydd wedi'u sefydli o fewn ein sefydliad sydd yno i wrando ac i atgyfeirio at wasanaethau a chefnogaeth lle bod angen.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Commission an enhanced and improved carers service
- Comisiynu gwasanaeth gofalwyr gwell
- Cynnal mwy o Sesiynau Ffrindiau Dementia yn ein cymunedau i godi ymwybyddiaeth, sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Adolygu polisi a dull ar gyfer Cam-drin Domestig a lleihau'r defnydd o iaith sy'n beio'r dioddefwr
- Cynyddu comisiynu rhaglenni cyflawnwyr cam-drin domestig
- Gwneud gwelliannau i Un Pwynt Mynediad gan gynnwys cyfranogiad Heddlu Gogledd Cymru

## Dyma beth wnaethom ni

### Adolygu polisi a dull ar gyfer Camdrin Domestig

Wedi'i alinio â Bwrdd Diogelu Corfforaethol y Cyngor, cyflawnodd yr Adran adolygiad o'i Bolisi Cam-drin Domestig, gan ganolbwyntio ar ganfod a chefnogi staff sydd wedi neu sydd yn profi cam-drin domestig.

Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen i gynnwys Datblygu'r Gweithlu (hyfforddiant), Datblygu Ymarfer (polisi a gweithdrefnau) Adnoddau Dynol (cefnogi staff), Rheolwyr Tîm Gweithredol (adnabod yn gynnar) gyda goruchwyliaeth a chyfranogiad gan Arweinydd Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru (VAWDASV). Mae hyn wedi cynhyrchu polisi diwygiedig sy'n cynnwys holl agweddau o drais domestig.

### Cynyddu comisiynu rhaglenni cyflawnwyr cam-drin domestig

Mae trafodaethau a gefnogir trwy'r gynhadledd asesiad risg aml-asiantaeth (MARAC) a Grŵp Llywio VAWDASV wedi cael eu cynnwys wrth gomisiynu adolygiad gwasanaeth llawn, gan edrych ar waith cyflawnwyr mewn mwy o fanylder ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys holl lefelau o gyflawnwyr risg uchel neu niwed uchel i lawr i'r rhai sy'n dod i sylw gwasanaethau am y tro cyntaf ac yn cynnwys grwpiau targed mewn ysgolion a cholegau.

Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gyflawni gan dîm VAWDASV Gogledd Cymru, a gobeithir y bydd argymhellion o'r adolygiad hwn yn llywio comisiynu ymyraethau cyflawnwyr wrth symud ymlaen i 2024/25.

### Cynnydd ar welliannau Un Pwynt Mynediad

Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r Un Pwynt Mynediad o ganlyniad i Weithgor Heddlu Gogledd Cymru a Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd yn 2022/23.

Cafodd y grŵp hwn ei roi mewn lle er mwyn sefydlu cysylltiadau gwell rhwng "drws ffrynt" Gwasanaethau Plant a Heddlu Gogledd Cymru cyn gynted â phosibl. Yn dilyn llwyddiant y grŵp hwn, mae gan Heddlu Gogledd Cymru bellach bresenoldeb rhithiol mewn Un Pwynt Mynediad yn ddyddiol, gyda chyfathrebiadau rhithiol effeithiol a thrafodaethau strategaeth. Mae hyn wedi cynorthwyo gydag amseriad a chysondeb gwneud penderfyniadau. Mae Un Pwynt Mynediad Gwasanaethau Plant yn elw o gefnogaeth a chyfathrebu dyddiol gan Dditectif Ringyll dynodedig, yn atgyfnerthu rhannu gwybodaeth yn gynnar a chydweithio lle bod angen.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Sefydlu Model Therapi Amlsystemig (MST) i ehangu ei gyrhaeddiad
- Datblygu model MST CAN gan weithio gyda phlant a theuluoedd yn eu cartrefi

# Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

Mae hyn yn golygu helpu pobl i wella eu hincwm. Yn ogystal â'u helpu i elwa o fywyd cymdeithasol a lle addas i fyw.

## Gofal Cymdeithasol i Oedolion

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Archwilio modelau amgen o ddarpariaeth ar gyfer cyfleoedd gwaith a gwasanaeth dydd er mwyn galluogi mwy o annibyniaeth ar gyfer y rhai ag anableddau dysgu.
- Adolygu'r model Broceriaeth er mwyn ehangu swyddogaethau broceriaeth i sicrhau comisiynu lleoliadau yn effeithiol ac effeithlon; gan wneud gwell defnydd o'n hadnoddau a rhoi mwy o ddewis i bobl Wrecsam.
- Peilota Ap Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn y Gwasanaeth Byw yn y Gymuned ac i gefnogi dinasyddion yn well, cynyddu ymatebolrwydd a hygyrchedd cynlluniau cefnogi.
- Cydweithio rhwng y gwasanaethau ailalluogi ac atal er mwyn cryfhau ac uno darpariaeth gwasanaeth ar gyfer ein dinasyddion.

#### Esbonio'r jargon - 'Broceriaeth'

> Mae broceriaeth am gaffael ystod o ddewisiadau cefnogi addas sy'n diwallu anghenion y cleient ac yn galluogi i'r ddarpariaeth fwyaf addas gael ei wneud.

### Dyma beth wnaethom ni

#### Archwilio modelau amgen darparu ar gyfer gwasanaeth dydd a chyfleoedd gwaith

Ychydig flynyddoedd yn ôl, fe wnaethom weithredu gwasanaeth cyfleoedd gwaith wedi'i gefnogi, ac roedd nifer o fusnesau mewnol a oedd yn ein caniatáu ni i ddarparu'r gwasanaeth yn fewnol, nid oes gennym y busnesau bychain hyn bellach.

Yn dilyn cwblhau adroddiad adolygu annibynnol a oedd yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol yn Wrecsam; mae gennym bellach lwybr clir o sut i ddatblygu ein cynnig o gefnogaeth. Y dull a argymhellir yw cadw'r ddarpariaeth Gwasanaethau Dydd a Seibiant fel gwasanaethau a ddarperir yn fewnol gan ein gwasanaeth cefnogi ac estyn allan presennol, gan alluogi datblygiadau pellach. Mewn perthynas â'r elfen cyfleoedd gwaith, yr argymhelliad oedd ceisio darparwr allanol i gyflawni darpariaeth.

Ein nod yw datblygu darpariaeth cyfleoedd gwaith a fydd yn galluogi dinasyddion Wrecsam sydd ag anabledd dysgu neu gorfforol neu'r ddau, i gael mynediad at gyfleoedd gwaith ystyrlon sydd, lle bo hynny'n bosibl, yn gymesur â'u dyheadau.

Bydd y gefnogaeth yn galluogi dinasyddion i gael mynediad at lwybrau addysgol a lleoliadau gwirfoddoli a all yn yr hirdymor, arwain at gyflogaeth â thâl, yn ddibynnol ar eu gallu.

Rydym bellach yn mynd trwy ymarfer tendro er mwyn penodi darparwr ac edrych ymlaen at lansio'r ddarpariaeth newydd yn yr hydref.

## Adolygiad o'r model broceriaeth i ehangu swyddogaethau broceriaeth

Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith eleni i sicrhau bod adnoddau yn y llefydd iawn i gefnogi dinasyddion orau i gyflawni eu canlyniadau lles. Un o'r ffyrdd rydym wedi gwneud hyn yw trwy sicrhau fod ein Broceriaid Gofal profiadol yn cefnogi timau gwaith cymdeithasol a'r teuluoedd maent yn eu cefnogi, i ddod o hyd i leoliadau cartref gofal. Mae hyn yn rhyddhau'r gweithwyr cymdeithasol i wneud mwy o'r hyn sy'n bwysig i ddinasyddion er mwyn helpu pobl i asesu beth sydd ei angen arnynt a'u helpu i gynllunio sut i gyflawni hyn. Mae hyn wedi gweithio'n dda, ac wedi'i gyflwyno'n llawn, ond mae ffordd hir i fynd eto er mwyn sicrhau bod gan ein timoedd digon o adnoddau i gefnogi dinasyddion wrth i'r galw barhau i gynyddu.

## Peilot Ap Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol yn y Gwasanaethau Byw yn y Gymuned

Mae ein gwasanaeth Byw yn y Gymuned yn rhan o beilot a ariennir gan y grant trawsnewid Anabledd Dysgu er mwyn profi Ap cefnogi a chynllunio gofal gyda phobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r adborth gan y staff a'r bobl maent yn eu cefnogi wedi bod yn gadarnhaol, maent wedi dweud wrthym ni "mae'n hawdd ei ddefnyddio, yn rhoi'r darlun lawn o anghenion cefnogi ac yn cynnwys gwybodaeth ystyrlon". Mae'r wybodaeth a gofnodir ar yr ap yn rhoi golwg holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn rydym yn ei gefnogi, mae hefyd yn cefnogi cyfathrebu, ac yn cadw cofnod yn seiliedig ar dystiolaeth effeithiol a sicrwydd ansawdd. Rydym yn parhau i archwilio sut all hyn, neu ddull tebyg gael ei gyflwyno ar draws y gwasanaethau.

## Cydweithio rhwng y gwasanaethau ailalluogi ac atal

Mae ein Gwasanaeth Ailalluogi mewnol wedi bod yn gweithio'n agos gydag Ysbyty Maelor Wrecsam, ac mae aelod o'r tîm wedi'u lleoli yno'n ddyddiol er mwyn galluogi asesiad cyflym a rhyddhau o'r ysbyty.

Mae'r Gwasanaeth Ailalluogi yn helpu pobl sy'n cael anawsterau gyda gweithgareddau bob dydd i adennill eu hannibyniaeth. Nod ailalluogi yw cefnogi pobl i wella sgiliau a hyder fel y gallant gwblhau sgiliau byw bob dydd angenrheidiol fel ymolchi a gwisgo, paratoi prydau bwyd neu hyd yn oed help i symud o gwmpas y tŷ fel eu bod yn gallu parhau i fyw yn eu cartref eu hunain. Mae ailalluogi ar gael i drigolion Wrecsam 18 oed a throsodd sydd ag angen a aseswyd.

Mae gweithio'n agosach gyda'r ysbyty yn lleihau amseroedd aros ar gyfer rhyddhau pobl o'r ysbyty a derbyn cymorth ailalluogi, sydd o fudd i'r unigolyn, a hefyd yn lleihau pwysau ar yr ysbyty.

### Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Gweithredu argymhellion yr adroddiad adolygu Cyfleoedd Gwaith a Dydd ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol.
- Datblygu Strategaeth Byw â Chymorth ac adolygu'r fanyleb gwasanaeth presennol i alinio'n agosach â'r model cynnydd rhanbarthol
- Byw â Chymorth Iechyd Meddwl - llunio cynllun i ehangu gwasanaethau adfer trwy gynyddu ein darpariaeth ein hun yn Wrecsam er mwyn galluogi dinasyddion i aros yn y gymuned a lleihau lleoliadau cost uchel tu allan i'r sir.
- Ailstrwythuro gwasanaethau darparwyr - Cafodd y strwythur diwygiedig ei chymeradwyo yn Ionawr 2024, ac unwaith y bydd ar waith bydd yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn gan wella effeithlonrwydd, ansawdd y gofal a diwylliant y gweithlu.

## Gofal Cymdeithasol i Blant

### Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud

- Adolygu'r defnydd o Gyfarfodydd Grŵp Teulu i edrych ar anghenion llety amgen er mwyn i blant a theuluoedd sy'n cefnogi i aros gyda'i gilydd gan ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol lleol.
- Datblygu'r prosiect Gofal yn Nes at y Cartref ymhellach
- Adolygu a gwella llwybrau ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain
- Datblygu a diffinio'r model darpariaeth ar gyfer ein gwasanaeth plant i gynnwys dull wedi'i lywio gan drawma cryfach

### Dyma beth wnaethom ni

#### Adolygu'r defnydd o Gyfarfodydd Grŵp Teulu

Trwy gydol y flwyddyn, mae nifer o lwyddiannau o ganlyniad i'r adolygiad o'r defnydd o Gyfarfodydd Grŵp Teulu. Mae'r llwyddiannau hyn wedi amrywio o atal plant rhag mynd i ofal - eu galluogi i aros gyda'u teuluoedd a chynorthwyo plant i gamu i lawr o wasanaethau. Rydym wedi ymestyn y Rhaglen Cyfarfod Grŵp Teulu i'r maes atal trwy lansio cyfleuster hunan-gyfeirio i deuluoedd a phartneriaid trydydd sector trwy borth ar-lein IEG yr Adran.

## Datblygiad pellach o'r prosiect Gofal Agosach at Adref

Fel rhan o ymrwymiad yr Adran i'w brosiect Gofal yn Agosach at Adref, mae Gwasanaethau Plant Wrecsam wedi ymgysylltu mewn menter ar y cyd â Sir y Fflint er mwyn agor lleoliad brys a chartref therapi, addysgol, therapiwtig cyfun. Mae hyn wedi arwain at leoliadau llwyddiannus ar gyfer plant, gan alluogi eu hadsefydlu gartref.

Er mwyn cefnogi'r prosiect hwn ymhellach, mae adolygiad o gyfraddau maethu ar gyfer gofalwyr maeth wedi arwain at recriwtio cadarnhaol yn lleol. Mae cyflwyniad y Model Cefnogwyr Gofalwyr Maeth yn gweithio fel dewis amgen i ofal preswyl ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth, gan sicrhau y gallent aros mewn cartref teuluol, wrth gynnig cefnogaeth 7 diwrnod yr wythnos i ofalwyr maeth.

Yn ogystal, mae gwaith yn parhau gyda'n cynlluniau buddsoddi cyfalaf i gaffael dau eiddo arall yn 2024/25. Fe wnaethom hefyd sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu nifer o gartrefi plant llai, un y flwyddyn ar gyfer 2024, 2025 a 2026, er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i aros neu symud yn ôl i'w trefi genedigol.

## Adolygu a gwella llwybrau ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain

Mae'r Gwasanaethau Plant yn ffodus o gael gweithiwr cymdeithasol dynodedig i gefnogi plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl ifanc hyn yn cael eu dynodi i un gweithiwr penodol, sy'n eu darparu â chysondeb a chefnogaeth.

Yn ogystal â'r uchod, mae gweithrediad llwyddiannus cam cyntaf prosiect Kickstart yr Adran, bellach yn cynnwys camau ychwanegol sy'n cynnwys ystyried anghenion plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain mewn llety. Mae'r Adran hefyd yn rhan weithredol o grwpiau datblygu ar draws y rhanbarth gan ystyried llwybr strategol a rhanbarthol ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain.

## Datblygu a diffinio model darpariaeth ar gyfer ein gwasanaeth plant

Mae llawer o waith wedi cael ei gyflawni trwy gydol y flwyddyn i ddiffinio'r model darparu ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, adolygu'r iaith rydym yn ei ddefnyddio mewn cyfathrebiadau i ac am ein pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym wedi gwneud camau da i ddefnyddio iaith sy'n hawdd i blant ei ddeall a hyrwyddo dull o ysgrifennu ein hadroddiadau am ein pobl ifanc i'n pobl ifanc, gan gefnogi ein dull o adeiladu gwaith taith bywyd cryf trwy gydol eu cyfranogiad gyda ni.

Yn strategol, mae'r Adran wedi buddsoddi mewn hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma, gyda rhai staff eisoes wedi cymryd rhan. Mae hyn wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu 5 mlynedd a fydd yn datblygu dull wedi'i lywio gan drawma ar draws yr adran.

## Dyma beth rydym ni eisiau ei wneud yn 2024-25

- Datblygu a gwella llwybrau ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain
- Parhau i wella a datblygu prosiect Gofal Agosach at Adref

# Sut ydym yn darparu ar gyfer ein dinasyddion

## Datblygu Ein Gweithlu

Mae ein tîm datblygu'r gweithlu'n dal i ddarparu amrywiaeth helaeth o sesiynau hyfforddiant ar-lein, modiwlau e-ddysgu a hyfforddiant wyneb yn wyneb yn y sector gofal cymdeithasol. Mae cais rhanbarthol Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 2024/25 wedi cael ei gyflwyno gyda dyraniad grant Wrecsam (sy'n cynnwys 30% o gyllid cyfatebol) yr un fath ag eleni £472,012.

Mae hyfforddiant a chymwysterau ar gael i'r bartneriaeth datblygu gweithlu gofal cymdeithasol, gyda'r aelodaeth wedi eu manylu yn ein cynllun cyfathrebu.

Fel rhan o nod yr adran i dyfu ein gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ein hun a manteisio ar weithwyr dawnus ac ymrwymedig sydd eisoes yn gweithio ar gyfer y cyngor, mae Gofal Cymdeithasol wedi ymrwymo i noddi hyd at wyth o weithwyr i astudio Gradd BA mewn Gwaith Cymdeithasol yn flynyddol. Eleni, sy'n nodi ein hail gohort o'r cynllun newydd i feithrin cronfa o dalent ein hunain (2023/24), roedd wyth o weithwyr yn llwyddiannus yn eu cais gan ddechrau eu gradd. Mae hyn yn dilyn o'r chwe myfyriwr rydym yn eu cefnogi yn y cohort cyntaf. Rydym ar fin dechrau'r broses ymgeisio ar gyfer cohort 2024/25. Mae'r cwrs Gweithiwr Cymdeithasol yn gwrs tair blynedd o ddysgu llawn amser, o bell trwy'r Brifysgol Agored.

Hefyd fel rhan o'r Cynllun Meithrin Cronfa o Dalent ein Hunain, rydym yn yr ail gohort ar gyfer unigolion i astudio Gradd BA mewn Therapi Galwedigaethol gyda sicrwydd swydd fel Gweithiwr Cymdeithasol neu Therapydd Galwedigaethol ar y diwedd. Mae pedwar myfyriwr wedi'u cefnogi y tro hwn, sy'n dilyn ymlaen o'r tri myfyriwr o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cwrs Therapi Galwedigaethol yn gwrs pedair blynedd rhan amser ym Mhrifysgol Glyndŵr.

Rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn Hyfforddiant Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau darparwyr. Byddwn yn parhau â hyn yn 2024/2025.

Trwy sefydlu'r dull hyfforddi'r hyfforddwr, gallwn wneud cais am gyllid rhanbarthol gan ystyrir hyn yn arfer gorau ar draws Cymru.

Yn sgil sefyllfaoedd cyllidebol heriol llywodraethau lleol, mae gwaith manwl wedi cael ei gyflawni i wella'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau. Fel rhan o'r adolygiad Datblygu'r Gweithlu, mae rolau swydd o fewn y tîm wedi cael eu hail-ddylunio er mwyn lletya'r gofynion hyfforddi a datblygu cynyddol o'r sector gofal cymdeithasol, gyda'r bwriad o leihau gwariant a gomisiynir a chynyddu ein darpariaeth fewnol, gan weithio gyda gwasanaethau mewnol i fodloni anghenion datblygu o fewn y gyllideb ofynnol.

Mae mwy o wybodaeth am flaenoriaethau hyfforddiant a chymwysterau rhanbarthol a lleol, ymarfer effeithiol sy'n codi a mentrau hyfforddi ar gael ar ein gwefan.

## Cyllid A Chynllunio Ar Gyfer Y Dyfodol

Roedd y pwysau cyllidebol yn 2022/23 ar gyfer Gofal Cymdeithasol o £17 miliwn yn adlewyrchu'r galw rydym yn ei wynebu ar hyn o bryd. Gan roi ystyriaeth i natur y pwysau, roedd yn anochel y byddai hyn yn cael effaith ar y flwyddyn ariannol 2023/24 a dechreuodd gwaith yn gynnar yn y flwyddyn i fynd i'r afael â'r sefyllfa. Cafodd ystod o fesurau lliniaru cyllideb eu rhoi mewn lle i leihau'r pwysau ac mae gwaith yn parhau i'w leihau ymhellach.

Yn seiliedig ar y sefyllfa ddiweddaraf, disgwylir i'r sefyllfa derfynol ar gyfer 2023/24 fo yn bwysau cyllidebol o tua £11.6 miliwn. Disgwylir i'r pwysau hyn barhau yn y tymor canolig ac mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yng nghyllideb Gofal Cymdeithasol 2024/25, sy'n cynnwys buddsoddiad ychwanegol o £7.1 miliwn yn ogystal â phwysau chwyddiannol o £8.1 miliwn - cynnydd cyffredinol o £15.2 miliwn. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i 2026/27 yn cynnwys buddsoddiad pellach o £5 miliwn dros y ddwy flynedd ariannol nesaf, dros a thu hwnt y pwysau chwyddiannol.

## Arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd gwleidyddol

Ar lefel wleidyddol, cefnogir y cyngor gan grŵp o gynghorwyr ar y bwrdd gweithredol - sy'n cael eu galw'n aelodau arweiniol - sy'n gwneud penderfyniadau allweddol. Maen nhw'n cael eu cefnogi gan bwyllgorau craffu. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn dod o dan y Pwyllgor Craffu Diogelu, Cymunedau a Lles.

Ar lefel reoli, mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol (Prif Swyddog) yn adrodd yn uniongyrchol i brif weithredwr y cyngor, a chefnogir gan dîm rheoli adrannol. Mae Cynghorwyr ac uwch reolwyr â'r cyfrifoldebau arweiniol hyn yn deall pwysigrwydd gwasanaethau cymdeithasol, ac mae polisi'r cyngor yn datgan y byddwn ni'n blaenoriaethu gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ddiamddiffyn wrth bennu cyllidebau, gwneud arbedion a newid sut rydym ni'n gwneud pethau.

Mae'r Bwrdd Gwelliannau Gofal Cymdeithasol yn cynnwys y ddau aelod arweiniol Gofal Cymdeithasol, y Prif Weithredwr ac Uwch Swyddogion ar draws y Cyngor sy'n gallu cefnogi'r gwaith gwella, gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Plant, Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Chyllid. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob dau fis i adolygu cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu Bwrdd Gwelliannau Gwasanaethau Cymdeithasol gydag adroddiadau yn cael eu darparu i'r Arweinydd, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arweiniol ac adrodd ar ddiwedd cyfnod i holl aelodau. Mae'r uwch arweinyddiaeth a ddarperir yn wleidyddol a gan swyddogion yn hanfodol fel sail i'r newidiadau cadarnhaol a gyflawnir.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn bartner i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae hwn yn fwrdd sy'n cynnwys y 6 awdurdod lleol, bwrdd iechyd a phartneriaid y trydydd sector ar draws y rhanbarth. Maent yn darparu dull cyfun i ddatblygu gwasanaethau a goruchwylio arian rhanbarthol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Lle bynnag bosibl maent yno i edrych am ffyrdd i ddarparu prosiectau a datrysiadau ar ôl-troed Gogledd Cymru.

Er mwyn llywio'r gwaith hwn, rhaid i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol lunio Asesiadau Rhanbarthol o Anghenion Poblogaeth, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ac adroddiadau blynyddol ar gynnydd yn erbyn darnau allweddol o waith. Rhaid i'r rhain ddangos ymgysylltiad a chyd-gynhyrchu â dinasyddion.

Mae is-grwpiau rhanbarthol eraill (Wrecsam a Sir y Fflint - Ardal y Dwyrain) mewn lle i fwydo gwybodaeth i waith ledled Gogledd Cymru. Ac yna mae fforymau wedi'u sefydlu n lleol i Wrecsam, yn canolbwyntio ar feysydd megis Dementia a Gofalwyr Di-Dâl, fel bod profiad Gofalwr Di-Dâl yn cael ei glywed ar y cyd â'r Awdurdod Lleol, Iechyd a phartneriaid trydydd sector.

## Trefniadau diogelu

Mae diogelu yn golygu gwarchod iechyd, lles a hawliau dynol pobl, a'u galluogi i fyw yn rhydd rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n golygu fod pobl a sefydliadau yn cydweithio er mwyn atal a lleihau effeithiau camdriniaeth a chefnogi pobl ddiamddiffyn sy'n cael eu heffeithio. Rydym hefyd yn sicrhau fod lles plant ac oedolion diamddiffyn yn cael ei hyrwyddo, gan ystyried eu barn, dymuniadau, teimladau a chredoau wrth benderfynu ar gamau gweithredu.

Wedi'i seilio ar egwyddorion Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019), rydym yn sicrhau fod diogelu yn ganolog i bopeth a wnawn a gwerthfawrogi'r perthnasau a phartneriaethau rydym wedi eu sefydlu gyda'n partneriaid aml-asiantaeth a sefydliadau gwirfoddol.

Mae ein hymrwymiad i ddiogelu wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad mewn hyfforddiant y gweithlu. Mewn partneriaeth gyda'n tîm Datblygu Adnoddau Dynol a Trefniadol, rydym yn sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn cael ei ddarparu drwy'r flwyddyn ac mae'n cynnwys ymwybyddiaeth diogelwch sylfaenol, gwaith amlasiantaeth a rhannu gwybodaeth a phynciau unigol a dargedwyd ble mae tueddiadau neu batrymau yn codi'n lleol neu'n genedlaethol.

Mae diogelu wedi'i sefydlu i waith dydd i ddydd ein holl dimoedd o'n gwasanaethau ataliol i'r timau hynny sy'n gyfrifol am gyflawni asesiadau tymor hir a gwasanaethau

gofal a chymorth sy'n gweithio gyda phlant/pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn. Mae Gofal Cymdeithasol wedi'i gefnogi gan y Tîm Diogelu a Sicrhau Ansawdd, sy'n dod â nifer o rolau ynghyd i sicrhau bod trefniadau cadarn ar gyfer arsylwi, sicrhau ansawdd a herio ar gyfer holl brosesau statudol.

Mae Tîm Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yr Adran yn sicrhau fod oedolion mewn risg yn derbyn cymorth o fewn terfynau amser statudol, bod archwiliadau yn cael eu cydlynu ac yn amserol a bod cynlluniau diogelu mewn lle i ddiogelu oedolion.

Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae diogelu yn ceisio sicrhau bod pobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai yn derbyn gofal mewn modd nad yw'r cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid ac mae'r Fframwaith Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid i warchod unigolyn sydd â diffyg capasiti i roi caniatâd am eu gofal, llety a thriniaeth er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag niwed.

# Rhagor o wybodaeth

Mae'r adran olaf hon yn rhestru lleoedd i gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau y sonnir amdanyn nhw yn yr adroddiad hwn.

- Strwythur y Cyngor
- Cynllun y Cyngor - Cynllun cyffredinol sy'n diffinio ble mae'r cyngor yn canolbwyntio ei egni
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru - Mae'n helpu i sicrhau fod plant ac oedolion diamddiffyn yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- Adroddiad gwerthuso perfformiad 2020
- Adrodd ar wasanaethau gofal rheoledig yn Wrecsam
- Cwynion a Chanmoliaethau'r Cyngor
- Dewis Cymru

## Adroddiadau a dogfennau'r Cyngor

- Polisi Codi Tâl
- Strategaeth Gweithlu Cyngor Wrecsam
- Cynllun hyfforddiant Datblygu'r Gweithlu, pamffledyn ac adroddiad canol blwyddyn
- Safonau'r Gymraeg
- Tudalennau gwe Cludiant
- Cynllun teithio Wrecsam - Wrecsam Gysylltiedig

# Atodiad 1

## Fframwaith Mesur Perfformiad

### Safon 1: Helpu pobl i gyflawni'r canlyniadau lles a ddymunant

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2023-24 | Sylw |
|---|---|---|
| AD/002 - Nifer y cysylltiadau i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor a chymorth | Ni ellir adrodd ar y data ar hyn o bryd | Dim |
| CA/002 - Nifer y cysylltiadau i oedolion a dderbyniwyd gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle rhoddwyd cyngor neu gymorth | 9,226 | Data wedi'i ddarparu gan Arweinydd Gofalwyr Di-dâl |
| CSC/014 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol | 87.91% | Gwelliant ar 22-23 (76.78%) |

### Safon 2: Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles corfforol, meddyliol ac emosiynol

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2023-24 | Sylw |
|---|---|---|
| AD/032 - Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn ble nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol ac AD/033 - Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn ble nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol a darparwyd | AD/032 – 110<br>AD/033 - 94 | Data wedi'i ddarparu gan ddarparwyr a gomisiynwyd |
| CSC/0010a - Canran o asesiadau a gwblhawyd ble roedd yna dystiolaeth o'r Cynnig Gweithredol o'r Gymraeg | 99.73% | Yn aros yn berfformiad statig o 22-23 (99.31%) |
| CSC/034 - Canran o gyfarfodydd grŵp craidd cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlen | 94.59% | Gwelliant o 22-23 (69.95%) |

## Safon 3: Diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2023-24 | Sylw |
|---|---|---|
| CSC/033 - Canran o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a gynhaliwyd o fewn amserlen | 92.16% | Gwelliant o 22-23 (75%) |
| AD/023 - Cyfanswm adroddiadau o amheuaeth o oedolyn mewn perygl ble mae angen gwneud ymholiadau ac AD/024 - Cyfanswm nifer o ymholiadau a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl derbyn adroddiad am y gamdriniaeth honedig. | AD/023 – 933<br><br>AD/024 - 852 | Data wedi'i ddarparu gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol |

## Safon 4: Helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2023-24 | Sylw |
|---|---|---|
| CSC/054a - Sawl sy'n Gadael Gofal (Categorïau 1, 2 a 4) Canran sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am 3 mis yn olynol yn y 12 mis ers gadael gofal | 47.83% | Lleihad mewn % - i lawr o 57.14% yn 22-23 |
| AD/010 - Canran o becynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn wnaeth leihau, cynnal neu leddfu'r angen am gefnogaeth | Wedi lleihau - 1.8%<br><br>Cynnal - 12.3%<br><br>Lliniaru - 86% | Data wedi'i ddarparu gan y Tîm Therapi Galwedigaethol |

## Safon 5: Helpu pobl i gael perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2023-24 | Sylw |
|---|---|---|
| CSC/038 - 100% o blant oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth wedi cofrestru â Meddyg Teulu o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau eu lleoliad. | 100% | Yn aros yn berfformiad cadarnhao o 22-23 (100%) |
| CSC/042 - Canran o asesiadau iechyd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd. | 78.95% | Lleihad mewn canran - i lawr o 88.93% yn 22-23 |
| CSC/052 - Canran o Bobl Ifanc oedd angen a dyrannwyd ymgynghorydd personol iddynt. | 100% | Gwelliant o 22-23 (97.93%) |

## Safon 6: Helpu pobl i sicrhau mwy o les economaidd, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

| Metrig perfformiad | Canlyniad 2023-24 | Sylw |
|---|---|---|
| CSC/055 - Canran y bobl ifanc sy'n gadael gofal a symudodd i leoliad 'Pan Fydda i'n Barod.' | 23.08% | Roedd camgymeriad yn ffordd y cyfrifwyd y canran ar gyfer 22-23. Roedd i fod yn 57.14%, nid 63.16%. Fodd bynnag, mae 23-24 yn dal i fod yn lleihad mewn canran o 22-23. |
| AD/015a - Canran o wasanaethau Gofal Preswyl wnaeth ddechrau yn ystod y flwyddyn | 40.55% | Canran y gwasanaethau gofal preswyl a ddechreuodd yn y flwyddyn o'i gymharu â chyfanswm y gwasanaethau o'r math hwn yn y flwyddyn. |
| AD/015b - Canran o wasanaethau Gofal Cartref wnaeth ddechrau yn ystod y flwyddyn | 67.86% | Canran y gwasanaethau gofal cartref a ddechreuodd yn y flwyddyn o'i gymharu â chyfanswm y gwasanaethau o'r math hwn yn y flwyddyn. |

## CSC/055

Roedd camgymeriad yn ffordd y cyfrifwyd y  ar gyfer 22-23. Roedd i fod yn 57.14%, nid 63.16%. Fodd bynnag, mae 23-24 yn dal i fod yn lleihad mewn % o 22-23.

Yn 23-24, symudodd pobl ifanc oedd yn gadael gofal i fathau eraill o leoliadau. Gan gynnwys:

- E4 (Wedi dychwelyd adref i fyw gyda rhieni, perthnasau, neu berson arall â chyfrifoldeb rhieniol) - 19.23%
- E5 (Wedi symud i drefniadau byw'n annibynnol ac nid ydynt bellach dan ofal: llety â chymorth yn darparu trefniadau cyngor/cefnogaeth ffurfiol) - 38.46%
- E6 (Wedi symud i drefniadau byw'n annibynnol ac nid ydynt bellach dan ofal: llety heb ddarpariaeth trefniadau cyngor/cefnogaeth ffurfiol) - 11.54%